| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2024 |
| **TEITL** | Delwedd newydd i'r AHNE |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Ystyried y mater ymhellach. |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth bellach am y gwaith sydd wedi ei wneud yn ddiweddar o ran creu brand a delwedd newydd i'r dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae'r dynodiad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

1.2 Mae'r adroddiad yn cael ei gynnwys ar agenda'r Cydbwyllgor ar gais y Cadeirydd yn dilyn derbyn llythyr gan Mr John Watkins, Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol (copi o'r llythyr yn Atodiad A).

## 2.0 ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL

2.1 Mae'r term "ardal o harddwch naturiol eithriadol" wedi ei gynnwys yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Pasiwyd y ddeddf yma gan y Llwyodraeth Lafur ar ôl y rhyfel er mwyn gwarchod yr ardaloedd arbennig yma ac yn achos y Parciau, hyrwyddo defnydd hamdden.

2.2 Dros y blynyddoedd mae cryn drafodaeth wedi bod am yr enw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn rhannol oherwydd ei fod yn deitl hir a disgrifiadol ac yn ail oherwydd nad yw yn cario yr un statws â Pharc Cenedlaethol rhywsut.

## 3.0 DELWEDD NEWYDD

3.1 Yn ddiweddar mae adolygiad o'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE wedi ei gynnal yn Lloger dan arweiniad y newyddiadurwr Julian Glover. Bu adolygiad tebyg yng Nghymru dan arweiniad yr Athro Peter Marsdon rhai blynyddoedd yn gynharach. Daeth Adolygiad Glover i'r casgliad fod achos cryf dros newid enw gweithredol yr AHNE i rhywbeth fyddai yn fwy bachog ac yn cynnwys y gair "cenedlaethol".

3.2 Mae’r Gymdeithas Genedlaethol dros AHNE, a sefydlwyd i gynorthwyo’r AHNE yn y DU trwy hyrwyddo ymarfer da, addysg ac hyfforddiant, wedi bod yn rhan o’r drafodaethaeth am ddyfodol yr Parciau a’r AHNE yng Nghymru a Lloegr. Mae’r Gymdeithas wedi bod yn cydgordio’r drafodaeth yn Lloger am newid enw gweithredol yr AHNE i “Dirweddau Cenedlaethol”.

3.3 Roedd y mwyafrif o ardaloedd yn Lloegr o blaid newid yr enw a bu i’r Gymdeithas hefyd gefnogi’r syniad. Yn dilyn hyn mae’r Gymdeithas wedi arwain ar ddatblygu pecynnau gwybodaeth, brandio a logos newydd i gyd-fynd gyda hyn. Bellach mae’r Gymdeithas wedi newid ei henw i Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol. Hefyd mae y rhan fwyaf, os nad yr holl ardaloedd yn Lloger yn defnyddio’r term Tirwedd Cenedlaethol, weithiau gyda’r AHNE yn is-deitl. Hefyd mae’r logos newydd, sydd gyda elfen debyg er creu teimlad o berthyn, yn cael eu defnyddio yn eang. Dyma gyfeiriad gwefan y Gymdeithas er gwybodaeth: www.national-landscapes.org.uk

3.4 Mae trafodaeth ar y mater wedi bod yng Nghymru ymysg swyddogion. Yn gyffredinol roedd cefnogaeth i’r bwriad ac mae’n ymddangos fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol. Bellach mae rhai o’r AHNE yng Nghymru hefyd yn defnyddio’r teitl Tirwedd Cenedlaethol a’r logos newydd.

3.5 Yn y cyfarfod o’r Cydbwyllgor a gynhaliwyd yn mis Tachwedd 2023 roedd aelodau’r Cydbwyllgor o blaid parhau i ddefnyddio’r teitl Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a’r logo presennol o’r fran goesgoch yn hytrach na mabwysiadu teitl gweithredol Tirwedd Cenedlaethol a logo newydd (sydd hefyd yn dangos fran goesgoch).

3.6 Bydd Mr John Watkins, Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol, yn ymuno yn y cyfarfod i roi mwy o wybodaeth am y mater yma.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.